**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID**
**DYDD GWENER, 22 TACHWEDD 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Gwener, 22ain Tachwedd, 2019

**YN BRESENNOL:** **Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sian Braun, Bob Connah, Andy Dunbobbin, Kevin Hughes, Tudor Jones, Dave Mackie, a Martin White

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** David Hytch a Lynn Bartlett

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Patrick Heesom (ar ran David Williams)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd: Paul Cunningham, Geoff Collett, Ian Smith, Gladys Healey a Glyn Banks a Vicky Barlow

**CYFRANNWYR:** Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) a Rheolwr Cyllid Addysg. Rheolwr Cyllid Strategol a Chyfrifydd ar gyfer cofnod rhif 31.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Addysg ac Ieuenctid a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd.

**33. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**34. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG: CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2020/21**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad ar arbedion effeithlonrwydd arfaethedig ar gyfer y gyllideb a phwysau costau ar gyfer Addysg ac Ieuenctid ar ôl cwblhau'r gwaith sydd ar y gweill ar ddewisiadau cyllid corfforaethol a phenderfyniad cyllideb Llywodraeth Cymru (LlC). Roedd LlC wedi cadarnhau’n ddiweddar y byddent yn cyhoeddi cyllideb ddrafft Cymru ar 16 Rhagfyr gyda Setliad Dros Dro yn cael ei gyhoeddi ar yr un diwrnod. Byddai cwblhau’r broses o osod y gyllideb yn gyfrifoldeb ar gyfer y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr – Mawrth.

Amlinellodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) Arbedion Effeithlonrwydd arfaethedig Cynllun Busnes y Portffolio, fel y nodwyd yn yr adroddiad ac egluro bod cyllidebau wedi'u gostwng cymaint ag sy'n ddiogel er mwyn diogelu cyllidebau dirprwyedig ysgolion.

Cyflwynodd y Cynghorydd Patrick Heesom bryderon o ran unrhyw gynnydd yn y tybiaethau gweithiol ar Dreth y Cyngor ac roedd yn teimlo y byddai'n annerbyniol cynyddu Treth y Cyngor yn uwch na 5%. Awgrymodd bod dewisiadau effeithlonrwydd pellach yn cael eu harchwilio a bod Aelodau’n derbyn

cynllun gwariant portffolio er mwyn dadansoddi a deall cyllidebau portffolio yn well. Gofynnodd hefyd am ragor o wybodaeth ar y pwysau sy'n cael ei achosi gan ddiffygion ariannol ym malansau ysgolion.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Strategol na fyddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd ychwanegol yn cael eu ceisio o bortffolios ac na fu ceisiadau newydd gan Aelodau i ystyried meysydd newydd o arbedion effeithlonrwydd. Eglurodd Rheolwr Cyllid Addysg mai un o'r pwysau mwyaf sylweddol ar gyllideb ysgol oedd cyflwyno Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol fod gan ysgolion adnoddau ychwanegol i gefnogi disgyblion gydag ADY. Amlinellodd hefyd y pwysau ar gyllidebau ysgol yn dilyn Dyfarniad Cyflog Athrawon na fyddai'n cael ei ariannu'n llawn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Mr. David Hytch, eglurodd y Prif Swyddog, nad oedd yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn y Gwasanaeth Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn golygu colli swydd swyddog ac y byddai'r cyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn gymorth i atgyfnerthu'r strwythur rheoli drwy benodi i swydd Uwch Reolwr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Tudor Jones am adolygiad actiwaraidd o Gronfa Bensiynau Clwyd, eglurodd y Rheolwr Cyllid Strategol bod yr adolygiad bron â'i gwblhau. Rhagwelir y byddai gostyngiad yn y swm a delir gan y Cyngor o oddeutu £2m.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin at yr heriau y mae ysgolion uwchradd sydd â diffyg yn eu cyllidebau yn eu hwynebu a gofyn a oedd ysgolion yn cael eu herio a'u cefnogi i archwilio a oes modd canfod rhagor o arbedion effeithlonrwydd. Nododd hefyd y rhaglen 'Mockingbird' gan egluro ei fod yn enghraifft dda o atgyfnerthu darpariaeth mewn modd sy'n effeithlon yn ariannol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog bod ysgolion yn cael eu herio a'u cefnogi a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer ysgolion sy'n profi anawsterau ariannol. Amlinellodd y Cytundeb Diffyg Trwyddedig ar gyfer ysgolion gyda diffyg yn y gyllideb ac adrodd bod adolygiad o'r Cytundeb wedi'i gynnal yn ddiweddar gyda fersiwn ddiwygiedig yn cael ei dosbarthu i'r ysgolion yn ddiweddar. Cytunwyd y byddai copi o'r Cytundeb diwygiedig yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Tudor Jones at y pwysau ariannol o waharddiadau ADY a gofyn pwy oedd yn gyfrifol am gost addysg plentyn sydd wedi'u gwahardd. Holodd hefyd os oedd y rhesymau dros y cynnydd mewn gwaharddiadau ar gyfer plant gydag ADY yn cael eu deall. Amlinellodd y Rheolwr Cyllid y fformiwla gyllid sy'n ymwneud â disgyblion sydd wedi'u gwahardd, gan egluro os yw plentyn yn mynychu ysgol wahanol ar ôl eu gwahardd, byddai'r cyllid yn dilyn y plentyn hwnnw.

Eglurodd y Prif Swyddog bod y rhesymau dros y cynnydd mewn gwaharddiadau ar gyfer plant gydag ADY yn anodd eu pennu. Efallai bod plant wedi gweld cam-drin domestig neu drais, yn gorfod ymdopi â rhieni yn gwahanu ac ysgaru, mae'r rhain i gyd yn cael eu cydnabod fel rhywbeth sy'n cael effaith ar bobl ifanc. Bu cynnydd oherwydd y defnydd o gyffuriau gyda'r ysgolion yn cydymffurfio â'r Polisi Camddefnyddio Sylweddau a chynnydd mewn ymddygiad treisgar a phroblemau llafar a chorfforol mewn ysgolion, ynghyd â chario arfau.

Roedd y rhain yn faterion cymhleth gyda Phenaethiaid eisiau diogelu disgyblion eraill a staff, gyda rhieni yn poeni am ddiogelwch, ond hefyd yn cydnabod bod yr unigolyn ifanc angen cefnogaeth hefyd. Nid oedd yn hawdd cefnogi ysgolion ac i'r unigolyn ifanc osgoi gwaharddiad ond weithiau roedd yn rhaid ystyried yr effaith ehangach ar yr ysgol.

Diolchodd y Cynghorydd Dave Mackie i'r swyddogion am y wybodaeth yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Heesom gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi cynigion effeithlonrwydd Addysg ac Ieuenctid ar gyfer 2020/21; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi pwysau costau Addysg ac Ieuenctid sydd wedi'u hargymell i'w cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020/21.

**35. CYNLLUN Y CYNGOR 2019/20 – ADRODDIAD MONITRO CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) grynodeb o gynnydd ar berfformiad yng Nghynllun y Cyngor ar bwynt canol blwyddyn 2019/20, sy'n berthnasol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar eithriad ac yn canolbwyntio ar feysydd sy'n tanberfformio, gyda'r Prif Swyddog yn darparu gwybodaeth fanwl ar y meysydd canlynol:-

- Mynediad at gynnyrch ar gyfer mislif mewn ysgolion; a
- Chyllid cyfyngedig i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith atgyweirio hysbys a gwaith cynnal a chadw asedau Addysg ac Ieuenctid.

Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol i ddarparu cynnyrch ar gyfer mislif y gellir ei ailddefnyddio, felly roedd angen newid yn ystod y broses gaffael. Roedd hyn wedi'i ddatrys a rhagwelir y byddai'r targed yn cael ei ddiwallu erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o drafodaethau blaenorol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad mewn cyllid i ysgolion a'r effaith yr oedd hyn yn ei gael ar gyllideb atgyweiriadau a chynnal a chadw. Roedd sylwadau'n cael eu cyflwyno gan Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg a'r Uwch Reolwr, Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion bod Awdurdodau Lleol yn derbyn cyllid ychwanegol i fynd i'r afael ag atgyweiriadau a chynnal a chadw adeiladau ysgolion.

Holodd y Cynghorydd Heesom pam fod rhannau o thema Cyngor Uchelgeisiol Cynllun y Cyngor yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor hwn. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Swyddog yn ystod adolygiad o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2019/20 teimlwyd y dylai Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fod o dan thema Cyngor Uchelgeisiol ac felly byddent yn parhau i gael eu hadrodd i'r pwyllgor hwn. Roedd creu un Gwasanaeth Archifau ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Chyngor

Sir Ddinbych, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf, hefyd yn rhan o thema Cyngor Uchelgeisiol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at y cam gweithredu bod staff addysgu yn derbyn datblygiad proffesiynol o ansawdd drwy'r system hunanwerthuso a oedd yn dangos statws COG 'melyn' a holi pam fod y statws yn 'felyn' ac a ellir darparu diweddariad cynnydd. Mewn ymateb atgoffodd y Prif Swyddog y Pwyllgor ynglŷn â chyflwyno Cwricwlwm Cenedlaethol newydd Cymru a fyddai'n cael ei weithredu erbyn 2022 ac egluro bod y cam gweithredu i gefnogi staff addysgu yn parhau i fod yn risg er mwyn sicrhau bod safonau mewn ysgolion yn cael eu diogelu. GwE oedd wedi darparu mwyafrif yr hyfforddiant ac roedd holl ysgolion Sir y Fflint wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn symud ymlaen yn dda â'r hyfforddiant drwy weithio ar y cyd. Awgrymwyd bod adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor tuag at ddiwedd tymor yr haf i nodi pa waith oedd wedi'i gyflawni.

Awgrymodd y Cynghorydd Mackie y newidiadau canlynol o ran camau gweithredu a risgiau a nodwyd yn atodiadau'r adroddiad:-

- 3.1.4.1 (CP) Newid polisi wedi'i gytuno erbyn chwarter un a gweithredu polisi diwygiedig a chynaliadwy – angen teitl cliriach ar gyfer y cam gweithredu.
- 1.5.6.4 (CP) Perfformiad wedi'i fesur gan ddefnyddio mesurydd perfformiad newydd ac ystyrlon – angen i'r cam gweithredu a'r sylw fod yn gliriach; a
- ST214 Methu â derbyn cyllid grant – angen i deitl y risg fod yn gliriach.

Cytunwyd bod yr Hwylusydd yn darparu'r adborth hwn i'r Tîm Perfformiad ar ôl y cyfarfod.

Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd Mackie, cytunwyd bod llythyr yn cael ei anfon at Gail Bennett, Rheolwr y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar, i'w llongyfarch ar y gwaith a wnaed i ragori'r targed a osodwyd ar gyfer nifer y plant sydd wedi derbyn mynediad at y cynnig Gofal Plant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Kevin Hughes at fynediad at gynnyrch ar gyfer mislif a nododd yn dilyn sgwrs gyda'r Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu, ei fod yn hyderus y byddai'r targed yn cael ei ddiwallu erbyn diwedd y flwyddyn. Eglurodd y Prif Swyddog bod yr holl ysgolion uwchradd wedi derbyn cynnyrch a oedd ar gael i bobl ifanc. Byddai banciau bwyd a chlybiau ieuenctid lleol hefyd yn derbyn cynnyrch a fyddai ar gael ar gyfer y bobl ifanc.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad, ynghyd â'r argymhelliad ychwanegol canlynol gan y Cynghorydd Kevin Hughes ac eiliwyd y cynnig gan Mr, David Hytch:-

- Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith parhaus sy'n cael ei gyflawni i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (LIC) i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi’r adroddiad;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi’r gwaith parhaus sy’n cael ei gyflawni i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (LlC) i fynd i’r afael â’r ôl-groniad o atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw.

## 36. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o’r cyhoedd na’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 am a daeth i ben am 12.04 pm)

..................................................

**Cadeirydd**